LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# LLAIS RHANBARTH GWENT – ADRODDIAD AR GYFER BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ANEURIN BEVAN CYFARFOD BWRDD CYHOEDDUS GORFFENNAF 2024



**Rhoi gwybod i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am faterion sy'n peri pryder ar hyn o bryd, a sylwadau cadarnhaol, neu adborth y cyhoedd y mae Llais Rhanbarth Gwent yn mynd i'r afael ag ef mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd.**

# Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Gymraeg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

01633 838516

gwentenquiries@llaiscymru.org

Llais Rhanbarth Gwent,

Tŷ Raglan,

Clos William Brown

Cwmbran

NP44 3AB

www.llaiscymru.org

www.llaiswales.org

| | |
|---|---|
| Am Llais | 4 |
| Rhagarweiniad | 6 |
| Sgwrs Genedlaethol: Cynllun Strategol Llais 2024–27 | 7 |
| Diweddariad Llais Rhanbarth Gwent | 8 |
| Adborth Cyhoeddus gan ein Gwasanaeth Eiriolaeth | 8 |
| Sylwadau rydym wedi'u gwneud neu wedi bod yn rhan ohonynt | 8 |
| Ymgysylltu yng Ngwent (Ebrill i Fehefin) | 8 |
| Gweithgareddau sydd i ddod | 10 |
| Diolch | 11 |
| Adborth | 11 |
| Manylion cyswllt | 11 |

# AM LLAIS

Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnyn nhw, mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.




Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith, rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais y "claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol rannau o Gymru.

# RHAGARWEINIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am faterion cyfredol sy'n peri pryder a sylwadau cadarnhaol, neu adborth y cyhoedd y mae Llais Rhanbarth Gwent yn mynd i'r afael â hwy mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd.

Mae Llais yn parhau i weithio o ran ymgysylltu â'r boblogaeth, craffu, a chynnig her annibynnol i'r GIG a gofal cymdeithasol, i fonitro ac ystyried newidiadau arferol a brys i wasanaethau. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion annibynnol.

Bellach mae gennym ein cynllun strategol cenedlaethol cyntaf. Mae'r cynllun hwn wedi'i greu gan ddefnyddio'r hyn a ddywedwyd wrthym gan bobl Cymru, ein staff a'n gwirfoddolwyr a chyrff a grwpiau eraill rydym yn gweithio gyda nhw.

Pan oedd y cynllun hwn yn cael ei greu, buom yn meddwl am ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau cyfreithiol megis Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu 2020, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Safonau'r Gymraeg 2016, Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, Dyletswydd y Sector Cyhoeddus, a chynlluniau ac ymrwymiadau cenedlaethol fel y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru a LGBTQ+, yn ogystal â'n llythyr cylch gwaith.

Gan adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu yn ein blwyddyn gyntaf, rydym wedi grwpio pethau i bum prif flaenoriaeth[1]:

1) Ysgogi sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

2) Gwthio am wasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb.

3) Cydweithio'n well.

4) Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.

5) Tyfu a gwella fel sefydliad.

[1] https://www.llaiscymru.org/amdanom-ni/sgwrs-genedlaethol-cynllun-strategol-llais-2024-2027

## Gweithgareddau cyfredol ac adborth:

### 1. Adborth cyhoeddus gan ein gwasanaethau Eiriolaeth

Rhwng 9 Mai a 28 Mehefin 2024, mae ein gwasanaeth Eiriolaeth wedi derbyn 53 o gysylltiadau newydd gan aelodau'r cyhoedd.  Roedd 11 o'r rhain yn ymholiadau ac roedd 42 yn bryderon am iechyd neu ofal cymdeithasol.

- Roedd dau ymholiad yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol a naw yn ymwneud â gwasanaethau'r GIG.
- Roedd 40 o'r pryderon newydd yn ymwneud â gwasanaethau'r GIG ac roedd dau yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol. Roedd y pryderon newydd yn rhychwantu Meddyg Teulu, Gofal Eilaidd, Bydwreigiaeth a Gweithwyr Cymdeithasol.

### 2. Sylwadau yr ydym wedi'u gwneud neu wedi bod yn rhan ohonynt

Mae gennym ddyletswydd i gyflwyno sylwadau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar ran ein poblogaeth pan allai gwasanaethau newid neu pan fyddwn yn clywed am faterion perfformiad iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar brofiadau pobl (yn gadarnhaol neu'n negyddol). Mae'n bosibl y byddwn yn gwneud y sylwadau hyn drwy lythyr ffurfiol, mewn e-byst neu drwy fynychu grwpiau/cyfarfodydd gwasanaeth cynlluniedig a gynhelir gan ein partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol.

Ers mis Mai 2024, rydym wedi bod yn rhan o'r canlynol neu wedi gwneud cynrychioliadau ar y canlynol:

- Trosglwyddiadau i'r Adran Achosion Brys gan griw ambiwlans a phrofiadau pobl o aros yn yr Adran Achosion Brys.
- Datblygiadau gwasanaeth adsefydlu strôc – sgyrsiau parhaus gyda'r Tîm Cynllunio yn dilyn newid gwasanaeth ôl-brys.

- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Tîm Cynllunio ynghylch ymgysylltu ymhellach â chleifion ar gyfer y ddarpariaeth tymor hwy mewn perthynas â chynigion ad-drefnu adrannau/unedau eLGH.
- 'Sgwrs ar gyfer dyfodol iach' Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan– Rydym wedi cefnogi ein poblogaeth i gymryd rhan mewn sgyrsiau cynnar i lywio trafodaethau a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ynghylch cynllun 10 mlynedd BIPAB. Rydym yn awyddus i gyfrannu a chefnogi ein poblogaeth i gael cyfleoedd pellach i fwydo i mewn i'r cynllun terfynol dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

## 3. Ymgysylltu yng Ngwent (Ebrill – Mehefin)

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, fe wnaethom ymgysylltu â 540 o bobl mewn mannau cymunedol, ysbytai, digwyddiadau lleol, a grwpiau cymorth.

Wrth i ni ymgysylltu â'r gymuned, fe wnaethom barhau i godi proffil Llais, yn ogystal â siarad â phobl am ein tair blaenoriaeth ranbarthol:

1) Gwasanaethau Cymunedol (iechyd a gwasanaethau cymdeithasol)
2) Gwasanaethau Iechyd Meddwl
3) Cael gofal yn gyflym pan fyddwch ei angen.

**Materion allweddol a nodwyd yng Ngwent:**

- Mynediad i apwyntiadau meddyg teulu
- Mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl
- Mynediad i Ddeintyddion y GIG

Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg yng Ngwent:

- Rhyddhau o'r ysbyty – diffyg pecynnau gofal
- Ward Mamolaeth yn Ysbyty Athrofaol Y Faenor

Bydd ciplun o effaith a mewnwelediad yn cael ei anfon at y bwrdd iechyd a'r pum awdurdod lleol ym mis Gorffennaf 2024.

## 4. Gweithgareddau i ddod

Ym mis Gorffennaf, rydym yn cael cyflwyniadau gan y bwrdd iechyd ar y pynciau canlynol:

- **Mewn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg**: Recriwtio nyrsio, lefelau staffio, adnoddau, a chynaliadwyedd.
- **Mewn perthynas â'n blaenoriaeth iechyd meddwl:** Gwasanaethau Iechyd Meddwl Aciwt i Oedolion (cleifion mewnol).
- **Mewn perthynas â'n blaenoriaethau lleol a chenedlaethol:** Perfformiad a gweithgareddau gwasanaeth Ambiwlans YGAC

# DIOLCH

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a hefyd i rannu eu syniadau gyda ni.

# ADBORTH

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

# MANYLION CYSWLLT


LLAIS RHANBARTH GWENT,
TŶ RAGLAN
PARC BUSNES LLANTARNAM,
CWMBRAN,
NP44 3AB.

FFÔN: 01633 838516
EMAIL: GWENTENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG
FACEBOOK: @GWENTLLAIS
TWITTER: LLAIS_CYMRU